**Dyddiadau ffenestri datgan diddordeb Gorffennaf 2023**

| **Cynllun** | **Crynodeb** | **Dyddiadau ffenestri** |
|---|---|---|
| Grant Dichonoldeb Draenio Cynaliadwy Cyfoeth Naturiol Cymru | Mae'r grant hwn ar gyfer datblygu cynlluniau draenio trefol bach, lleol a chynaliadwy i reoli dŵr glaw ac ati.<br><br>Mae hyd at £450,000 ar gael i alluogi ymgeiswyr i gynnal astudiaethau dichonoldeb, gyda'r potensial i ddatblygu cynlluniau gan ddefnyddio grantiau yn y dyfodol. Ar hyn o bryd mae Cyfoeth Naturiol Cymru am gynorthwyo prosiectau rhwng £25,000 - £40,000.<br><br>Mwy o wybodaeth: https://naturalresourceswales.gov.uk/about-us/grants-and-funding/sustainable-drainage-feasibility-grant/?lang=cy | Yn cau 25ain Medi 2023 |
| Cynllun Cynllunio Creu Coetir | Mae'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir yn cynnig grantiau o rhwng £1000 a £5000 i ddatblygu cynlluniau i greu coetir newydd. Ar ôl i gynllun gael ei gymeradwyo gan Cyfoeth Naturiol Cymru mi fydd yn gymwys i dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i blannu coed a ffensio (Grant Creu Coetir).<br><br>Mae gwybodaeth bellach ar gael yma: https://llyw.cymru/cynllun-cynllunio-creu-coetir | Ar agor trwy'r flwyddyn (yn amodol ar gyllideb) |
| Grantiau bach – Amgylchedd (Dŵr) | Cynllun i gefnogi amryw o ymyriadau rheolaeth tir ac i ddarparu cyfalaf ar gyfer gwelliannau amgylcheddol ar ffermydd, i wella ansawdd adnoddau naturiol Cymru.<br><br>Mae hwn yn gynllun ar wahân i gynlluniau eraill sy'n cynnig uchafswm grant o £7,500 fesul ffenestr ar gyfer Prosiectau Gwaith Cyfalaf.<br><br>Bydd y rownd hon yn canolbwyntio ar y thema Dŵr.<br><br>Ni fydd parseli tir sydd eisoes yn rhan o gontractau Glastir yn gymwys.<br><br>Mwy o wybodaeth: https://www.llyw.cymru/grantiau-bach-amgylchedd | 21ain Awst 2023 – 29ain Medi 2023 |
| Grantiau Bach – Creu Coetir | Ar gyfer plannu ardaloedd bach o goed dan 2 hectar. Mae'r cynllun hwn wedi'i anelu at ffermwyr a thirfeddianwyr eraill i'w hannog i blannu ardaloedd bach o goed ar dir sydd wedi'i wella'n amaethyddol neu sydd o werth amgylcheddol isel yng Nghymru, felly ni fydd angen cynllun creu coetir wedi'i ddilysu gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y ceisiadau hyn.<br><br>Nid yw'r cynllun yn golygu colli taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS), a chynigir taliadau cynnal a chadw a | 24ain Gorffennaf 2023 – 15fed Medi 2023 |

| | | |
|---|---|---|
| | thaliadau premiwm am 12 mlynedd, a chyfradd ffensio uwch o £8.32/m.<br><br>Mae gwybodaeth bellach ar gael yma: https://www.llyw.cymru/grantiau-bach-creu-coetir | |
| Grant Creu Coetir | Ar gyfer cynlluniau mwy (fodd bynnag, dim ond 0.25ha yw'r ardal leiaf, sy'n cynnwys parseli 0.1ha man lleiaf) a'r rhai nad ydynt yn gymwys ar gyfer y Cynllun Grantiau Bach – Creu Coetir.<br><br>Mae angen Plan Creu Coetir ymlaen llaw. Mae cyllid ar gael drwy'r **Cynllun Cynllunio Creu Coetir.**<br><br>Nid yw'r cynllun yn golygu colli taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS), a chynigir taliadau cynnal a chadw a thaliadau premiwm am 12 mlynedd, a chyfradd ffensio uwch o £8.32/m.<br><br>Mae gwybodaeth bellach ar gael drwy ddefnyddio'r ddolen: https://www.llyw.cymru/grant-creu-coetir | 24ain Gorffennaf 2023 – 15fed Medi 2023 |
| Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd | Mae'r cynllun hwn yn cynnig cymorth ar gyfer buddsoddiadau diriaethol a/neu anniriaethol mewn gweithgareddau prosesu sy'n dod â manteision clir a mesuradwy i'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru a'i gadwyni cyflenwi.<br><br>**Rydych chi'n gymwys i ymgeisio:**<br><br>Os ydych chi'n **fusnes sydd wedi cofrestru ar gyfer TAW** sy'n ymgymryd â phrosesau cynradd a/neu eilaidd mewn cynnyrch amaethyddol ac anamaethyddol, megis:<br><br>• cwmnïau cyfyngedig preifat a chyhoeddus<br>• unig fasnachwyr a phartneriaethau<br>• busnesau fferm sy'n prosesu cynnyrch amaethyddol<br>• busnesau newydd, gan gynnwys hen fusnesau sy'n dechrau arallgyfeirio a busnesau sydd newydd eu sefydlu<br>• cwmnïau nid-er-elw, cwmnïau cydweithredol a mudiadau cymunedol, cyhoeddus a gwirfoddol<br><br>**Costau Cymwys**<br>Gellir defnyddio'r cymorth o dan y cynllun hwn ar gyfer asedau tiriaethol megis prynu a/neu ddatblygu tir, adeiladau, peiriannau, a chyfarpar, yn ogystal ag asedau anniriaethol fel meddalwedd gyfrifiadurol, hawliau patent, a thrwyddedau a ffioedd ar gyfer gwasanaethau technegol ac ymgynghori, yn amodol ar gyfyngiadau: | Wedi agor ar 17eg Tachwedd 2022 a bob 4 wythnos detholir buddiolwyr llwyddiannus i'w gwahodd i gyflwyno cais llawn. Bydd y ffenestr yn aros ar agor nes bod y gyllideb a ddyrannwyd wedi'i defnyddio. |

| | | |
|---|---|---|
| | Y grant mwyaf a roddir fesul menter ar gyfer unrhyw brosiect buddsoddi unigol yw **£5,000,000**<br><br>Y grant lleiaf a roddir fesul menter ar gyfer unrhyw brosiect buddsoddi unigol yw **£20,000**<br><br>Mwy o wybodaeth:<br>https://llyw.cymru/cynllun-sbarduno-busnesau-bwyd-canllawiau-html | |